



Joint Council for
Qualifications^{CIC}

Cwestiynau Cyffredin – ystyriaeth arbennig, cyfres Mehefin 2022

Cyhoeddwyd gyntaf Mai 2022

At sylw penaethiaid canolfannau, uwch arweinwyr a
swyddogion arholiadau yng Nghymru

Cynhyrchwyd ar ran:



©JCQ^{CIC} 2022

1. Pa fesurau sydd ar waith i sicrhau y gall ymgeiswyr sefyll eu hasesiadau wedi'u hamserlennu?

Rhoddwyd amrywiaeth o fesurau ar waith yr haf hwn i gefnogi ymgeiswyr sy'n sefyll asesiadau ac arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch.

Ymhlith y mesurau hyn y mae:

- addasiadau i'r unedau Asesiad Di-arholiad a/neu unedau sy'n cael eu harholi i bob cymhwyster CBAC TGAU a TAG sy'n:
 - symleiddio'r cynnwys i'w asesu yn 2022
 - lleihau gofynion yr Asesu Di-arholiad
 - cyflwyno elfen o ddewis i asesiadau naill ai drwy gynnig dewis o unedau neu ddewis o gwestiynau mewn uned.
- llacio'r rheolaethau ar gyfer cynnal llawer o unedau'r Asesiad Di-arholiad
- darparu gwybodaeth ymlaen llaw ynghylch yr hyn y mae'r arholiadau'n mynd i ganolbwyntio arno fel ffordd o helpu'r ymgeiswyr i adolygu ar gyfer pynciau lle nad oedd yn bosibl symleiddio'r cynnwys i'w asesu
- graddio hael o gymharu â chyfres arholiadau Mehefin 2019
- o leiaf 10 diwrnod rhwng arholiad cyntaf ac olaf pob manyleb TAG UG, Safon Uwch a TGAU. O wneud hyn, bydd llai o siawns y bydd yr ymgeisydd yn colli'r holl arholiadau mewn pwnc oherwydd afiechyd.

Mae cyrff dyfarnu'r CGC sy'n darparu cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau cyffredinol eraill wedi rhoi amrywiaeth o fesurau ar waith hefyd i gefnogi ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau ac asesiadau'r haf hwn. Bydd y cyrff dyfarnu perthnasol wedi cyhoeddi'r mesurau hyn.

2. Beth yw ystyriaeth arbennig?

Rhoddir ystyriaeth arbennig i ymgeisydd sydd wedi profi afiechyd, anaf neu ddigwyddiad arall dros dro sydd y tu hwnt i'w reolaeth ar adeg yr asesiad. Fe'i cymhwysir pan fydd y mater neu'r digwyddiad wedi effeithio'n sylweddol, neu ei fod yn rhesymol debygol o fod wedi gwneud hynny, ar allu ymgeisydd i sefyll asesiad neu i ddangos ei lefel arferol o gyrhaeddiad mewn asesiad. Dau gategori o ystyriaeth arbennig sydd yna:

- i ymgeisydd, sy'n **bresennol** ar gyfer yr arholiad/asesiad di-arholiad ar ddiwrnod yr arholiad/asesiad di-arholiad **ond dan anfantais**; (gweler adran 3, tudalen 6 o ddogfen y CGC **canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig**) neu
- i ymgeisydd sydd, ar ddiwrnod yr arholiad/asesiad di-arholiad **yn absennol** o'r arholiad/asesiad di-arholiad **am reswm derbyniol** (gweler adran 4, tudalen 8 o ddogfen y CGC **canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig**).

3. Pa ymgeiswyr sy'n gymwys am ystyriaeth arbennig?

Bydd ymgeiswyr yn gymwys am ystyriaeth arbennig os ydynt wedi cael eu paratoi'n llawn ac wedi astudio'r cwrs cyfan, ond bod eu perfformiad yn ystod yr arholiad, neu wrth lunio gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad wedi cael ei effeithio'n sylweddol gan amgylchiadau andwyol y tu hwnt i'w rheolaeth **ar adeg yr asesiad**. Yn adran 2, tudalen 4 o ddogfen y CGC **canllaw i'r broses**

ystyriaeth arbennig mae rhestr o amgylchiadau andwyol o'r fath yn ogystal ag enghreifftiau'n dangos pa bryd na fyddai ymgeiswyr yn gymwys am ystyriaeth arbennig.

4. A oes canllawiau ychwanegol ar gymhwysedd am ystyriaeth arbennig yng nghyd-destun COVID-19?

Darparodd y CGC ganllawiau atodol i ganolfannau yng Nghymru ar dudalen 23 o ddogfen y CGC **canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig** yng nghyd-destun cyfres arholiadau Mehefin 2022 a chanllawiau Llywodraeth Cymru [Hunanyngysu: canllawiau i bobl â COVID-19 a'u cysylltiadau](#)

Mae unrhyw ymgeisydd sy'n aros gartref ac yn osgoi dod i gysylltiad â phobl eraill, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, ar adeg yr arholiad, yn cael ei ystyried yn absennol o'r arholiad am reswm derbyniol. Amlinellir y darn perthnasol o'r canllawiau isod:

- Os oes gan ymgeisydd unrhyw un o'r prif symptomau COVID-19, dylai hunanyngysu a chymryd prawf llif unffordd (LFT).
- Os yw'r prawf yn bositif, dylai'r ymgeisydd hunanyngysu am o leiaf 3 diwrnod llawn. Diwrnod 1 yw'r diwrnod ar ôl i'r symptomau ddechrau. Dylai'r ymgeisydd [gofnodi ei ganlyniad](#).
- Ar ddiwrnod 3, os yw'r symptomau wedi diflannu, dylai'r ymgeisydd gymryd prawf llif unffordd. Os yw'r prawf hwnnw'n negatif, dylai'r ymgeisydd gymryd prawf llif unffordd arall ar ddiwrnod 4.
- Os yw'r prawf ar ddiwrnod 4 hefyd yn negatif, a bod yr ymgeisydd yn teimlo'n iawn ac nad oes ganddo dymheredd uchel, gall roi'r gorau i hunanyngysu i sefyll ei arholiad. Dylai'r ymgeisydd [gofnodi ei ganlyniad](#).
- Os yw'r prawf naill ai ar ddiwrnod 3 neu 4 yn bositif, dylai'r ymgeisydd barhau i hunanyngysu a chysylltu â'r ysgol neu leoliad addysg.
- Os oes gan yr ymgeisydd dymheredd uchel o hyd neu os ydyw'n teimlo'n sâl, dylai barhau i hunanyngysu nes ei fod yn dychwelyd i normal, neu nes y bydd yn teimlo'n well
- Dylai'r ymgeisydd barhau i gymryd profion llif unffordd dyddiol nes y bydd yn cael 2 brawf negatif yn olynol, ddiwrnod ar wahân, neu tan ddiwrnod 10 – pa un bynnag sydd gyntaf. Nid oes angen prawf LFT negatif ar yr ymgeisydd ar ddiwrnod 10 i roi'r gorau i hunanyngysu.

5. Beth yw'r lleiaf sy'n ofynnol i ymgeisydd dderbyn gradd drwy'r broses ystyriaeth arbennig yr haf hwn?

Oherwydd bod amgylchiadau mor eithriadol yn bodoli yr haf hwn, caiff gradd ei dyfarnu gan y cyrff dyfarnu lle mae ymgeiswyr cymwys oedd yn absennol am reswm derbyniol wedi cwblhau a chyflwyno asesiad(au) o leiaf un uned gyfan yn y fanyleb. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os yw'r gydran/uned a gwblhawyd yn cyfrannu llai na 25% at y cymhwyster cyffredinol.

6. Sut bydd gradd yr ymgeisydd yn cael ei dyfarnu os yw'n gymwys am ystyriaeth arbennig gan ei fod yn absennol am reswm derbyniol o arholiad uned gyfan mewn manyleb yr haf hwn?

Fel unrhyw gyfres arholiadau, os yw ymgeisydd yn gymwys am ystyriaeth arbennig ar ôl bod yn absennol o arholiad/asesiad am reswm derbyniol, yna bydd y cyrff dyfarnu'n cynhyrchu marciau am arholiad/asesiad yr ymgeisydd a gollwyd yn y cymhwyster yn seiliedig ar:

- y marciau a ddyfarnwyd i'r ymgeisydd am ei arholiadau/asesiadau'r corff dyfarnu a gwblhawyd ac a gyflwynwyd am yr unedau eraill yn y fanyleb

a

- pherfformiad y myfyriwr yn ei arholiadau/asesiadau'r corff dyfarnu a gwblhawyd ac a gyflwynwyd yn y cymhwyster hwnnw o gymharu â'r holl fyfyrwyr eraill.

7. A fyddai unrhyw ymgeisydd sy'n poeni bod gan ymgeiswyr eraill yn yr ystafell arholiadau COVID-19, neu unrhyw afiechyd arall, yn gymwys am ystyriaeth arbennig?

Os yw ymgeisydd yn dewis peidio â mynd i mewn i'r ystafell arholiadau gan ei fod/bod yn pryderu y gallai fod gan ymgeiswyr eraill COVID-19, neu unrhyw afiechyd arall, **ni** fyddai hyn yn rheswm derbyniol dros golli'r arholiad. **Ni** fyddai'r ymgeisydd yn gymwys am ystyriaeth arbennig.

8. Mae ymgeisydd yn cael prawf positif am COVID-19 ond mae'r ymgeisydd hwnnw am sefyll ei arholiad. Beth ddylai'r ganolfan ei wneud?

Os yw ymgeisydd wedi cael prawf positif am COVID-19 neu'n teimlo'n sâl ag unrhyw rai o'r prif symptomau COVID-19, mae [canllawiau Llywodraeth Cymru](#) yn glir y dylai ef/hi aros gartref. **Ni ddylai'r** ymgeisydd fynd i'w arholiadau am y cyfnod amser y mae Llywodraeth Cymru yn ei argymhell ac yn unol â'r pwyntiau a amlinellir yn yr ateb i gwestiwn 4 uchod.

Caiff unrhyw ymgeisydd sy'n aros gartref ac yn osgoi dod i gysylltiad â phobl eraill, yn unol â [chanllawiau Llywodraeth Cymru](#), ar adeg yr arholiad, ei ystyried yn absennol o'r arholiad am reswm derbyniol.

Dylai'r ganolfan roi Ffurflen 14-JCQ/ME - *Hunanardystio ymgeiswyr sydd wedi colli arholiad* (i ganolfannau yng Nghymru) i'r ymgeisydd. Bydd yr ymgeisydd yn llenwi'r ffurflen ac, os yw'n 18 oed ac iau, bydd ei riant/gofalwr/gwarcheidwad yn llenwi'r ffurflen hefyd.

9. Pa dystiolaeth sydd ei hangen os yw ymgeisydd yn absennol o asesiad am reswm derbyniol?

Bydd y ganolfan yn gwneud cais am ystyriaeth arbennig os yw'n hyderus bod yr ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf. Mae'r manylion i'w gweld yn nogfen y CGC **canllawiau ar y broses ystyriaeth arbennig**.

Addasodd cyrff dyfarnu'r CGC Ffurflen 14 - JCQ/ME - *Hunanardystio i ymgeiswyr sydd wedi colli arholiad* (i ganolfannau yng Nghymru). Bydd hyn felly o gymorth ychwanegol i'r canolfannau wrth iddynt ymdrin ag ymgeiswyr sy'n absennol o arholiad am reswm derbyniol yn unol â [canllawiau Llywodraeth Cymru](#). Bydd canolfannau'n disgwyl i rieni/gofalwyr/gwarcheidwaid ac ymgeiswyr llenwi'r rhannau perthnasol ar y ffurflen.

Gall canolfannau ofyn am gadarnhad GIG gan y myfyriwr neu ei riant/gofalwr/gwarcheidwad ei fod wedi rhoi gwybod am ganlyniad y prawf llif unffordd.

10. Beth dylai staff canolfan ei wneud os ydynt yn bryderus bod y wybodaeth a ddarparodd yr ymgeisydd ar Ffurflen 14 yn ddibynadwy?

Os yw canolfan yn amau dilysrwydd y manylion y mae'r ymgeisydd wedi'u rhoi ar Ffurflen 14, yna dylent ddefnyddio **polisi a gweithdrefn safonol y CGC** i ymchwilio'r mater fel achos o amheuaeth o gamymddwyn ymgeisydd.

Os daw'r ymchwiliad camymddwyn i'r casgliad bod yr ymgeisydd wedi darparu gwybodaeth ffug am ei ddilysrwydd am ystyriaeth arbennig, yna gallai canlyniadau'r ymgeisydd gael eu tynnu'n ôl, neu gellid diarddel yr ymgeisydd o'r cymhwyster penodol, ac o gymwysterau eraill o bosibl hefyd.

11. Ydy ymgeiswyr yn gallu derbyn gradd am gymhwyster, drwy'r broses ystyriaeth arbennig, os nad ydynt yn cwblhau ac yn cyflwyno'r holl arholiadau/asesiadau ffurfiol wedi'u gosod gan y corff dyfarnu am o leiaf un gydran/uned gyflawn yn y fanyleb?

Disgwylir i ymgeiswyr, yn ôl yr arfer mewn cyfres arholiadau safonol, gwblhau arholiadau/asesiadau i dderbyn gradd, a gyflwynir gan y ganolfan i'r corff dyfarnu. **Dylai** staff canolfannau lle bynnag y bo hynny'n bosibl barhau i annog ymgeiswyr i fynychu eu harholiadau.

Ni ddyfernir cymhwyster lle na chwblhaodd yr ymgeisydd unrhyw arholiadau/asesiadau ffurfiol mewn manyleb a osodwyd gan gorff dyfarnu a'u cyflwyno gan y ganolfan.

Dylai unrhyw ymgeiswyr fod wedi'u paratoi'n llawn ac wedi ymdrin â'r cwrs cyfan (gan gynnwys unrhyw addasiadau sydd ar waith ar gyfer cyfres haf 2022) i fod yn gymwys am ystyriaeth arbennig. Dim ond wedyn y byddant yn gymwys i dderbyn ystyriaeth arbennig os effeithiwyd yn sylweddol ar eu perfformiad yn yr arholiad, neu wrth gynhyrchu arholiad neu asesiad di-arholiad, oherwydd amgylchiadau andwyol y tu allan i'w rheolaeth **ar adeg yr asesiad**. Bydd y broses ystyriaeth arbennig yn weithredol ar gyfer ymgeisydd sydd, ar ddiwrnod ei arholiad/asesiad di-arholiad yn:

- i. bresennol ar gyfer yr arholiad/asesiad di-arholiad ond dan anfantais

neu'n

- ii. absennol o'r arholiad/asesiad di-arholiad am reswm derbyniol.

Oherwydd bod amgylchiadau mor eithriadol yn bodoli yr haf hwn, caiff gradd ei dyfarnu gan y cyrff dyfarnu lle mae ymgeiswyr cymwys oedd yn absennol am reswm derbyniol wedi cwblhau a chyflwyno asesiad(au) o leiaf un uned gyfan yn y fanyleb. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os yw'r gydran/uned a gwblhawyd yn cyfrannu llai na 25% at y cymhwyster cyffredinol.

Hefyd, cofiwch gyfeirio at ddogfen y CGC [canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig](#) (atodiad 2, tud. 25) sy'n cynnwys enghreifftiau o senarios posibl.